

## Cofion a Chyfarchion

- Yr ydym yn parhau i gyflwyno i'r Arglwydd yn ein gweddïau y rhai hynny o'n plith sydd heb fod yn dda eu hiechyd y dyddiau hyn. Mae Elwy Owen (Llanefydd) yn parhau yn Ysbyty Broadgreen, a Glyn Jones (Nantglyn) wedi cyrraedd yn ôl i Ysbyty Glan Clwyd erbyn hyn, ac mae eraill o'n plith yn dal i wella yn dilyn gwahanol driniaethau. Gweddiwn y byddant oll yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal ac yn eu hiachau.
- Cofiw'n hefyd am y rhai hynny o'r Ofalaeth sydd wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf, a chyflwynwn hwy i ofal a thangnefedd Duw.
- Llongyfarchiadau i Steffan Morris a Gwenno Teifi ar eu priodas ym Mhencader yr wythnos ddiwethaf. Rydan ni'n gyfarwydd iawn â'r ddau yn yr Ofalaeth hon ac yn gwerthfawrogi eu gwasanaeth bob amser – mae Steffan wedi arwain sawl oedfa yn eglwysi'r Fro, ac mae'r ddau ohonynt yn weithgar ac yn boblogaidd, yn arbennig gyda chriw CIC a CAP, ac yn naturiol yng Ngholeg y Bala. Dymunwn fendithion lu i'r ddau i'r dyfodol.

## Blwyddyn Gap

Mae'r FLWYDDYN GAP yn gwrs ymarferol mewn meithrin disgyblion sy'n para blwyddyn (Medi-Awst) ac wedi ei leoli yng Ngholeg y Bala, Canolfan Plant ac Ieuenctid Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Amcanion y FLWYDDYN GAP yw:

- ⇒ annog datblygiad personol ac ysbrydol
- ⇒ ymdrechu tuag at fod â chymeriad cynyddol Grist-debyg
- ⇒ cynorthwyo pob myfyriwr i adnabod ei ddoniau a'i botensial
- ⇒ datblygu sgiliau arwain, cyfathrebu ac adeiladu tîm effeithiol
- ⇒ cynorthwyo a galluogi pob myfyriwr i ddirnad sut gyfraniad y gall ei wneud i'r Eglwys.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Coleg: (01678) 520565 / [www.colegybala.org](http://www.colegybala.org)

## I ddod

- **Myfyrdodau'r Pasg** – Astudiaethau fydd yn ein paratoi ar gyfer y Pasg dros dair noson, ac mewn chwe lleoliad gwahanol. Croeso i chi ymuno ble bynnag sy'n gyfleus i chi:
  - ⇒ Nos Fawrth, Mawrth 26ain yn Nantglyn a Chefn Meiriadog;
  - ⇒ Nos Fercher, Mawrth 27ain yn Groes a Chefn Berain;
  - ⇒ Nos Iau, Mawrth 28ain yn Saron a Llansannan.
- **Oedfa Gymun Bore'r Grogolith**, Mawrth 29ain yng Nghapel Henllan am 10.30.
- **Llanw** - Cynhelir Llanw 13 yn Ninbych y Pysgod yn Sir Benfro rhwng Ebrill 1af-5ed. Mae croeso i bawb - plant, teuluoedd, myfyrwyr, parau a phobl sengl o bob oed! Cewch fwy o fanylion ar y wefan [www.llanw.org](http://www.llanw.org).

## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 17<sup>eg</sup> Mawrth 2013

Darlleniad y Dydd

Marc 8:31-38

(BCND tud.47 / BCN: tud.43)

[www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com)

[www.llanw.org](http://www.llanw.org)

Bore da a chroeso i'r oedfaon wrth i ni gydaddoli'n Harglwydd Iesu heddiw. Gweddiwn am fendith Duw ar ei Air a diolchwn iddo am bob un sy'n rhannu Gair Duw yn ein plith o wythnos i wythnos. Mae Iesu yn rhannu Gair Duw hefo'i ddisgyblion a'r dyrfa yn ôl yr hanes a gawn yn y darlleniad heddiw. 'Dysgu' yw'r disgrifiad o'r hyn a wna. 'Llefaru'r gair yn agored' yw disgrifiad arall. Diolchwn o ddifri fod gennym ni gyfle arall heddiw i ddod i gael ein dysgu gan Iesu a chlywed ei air yn gwbl agored. Mae cymaint o rym yn y Gair pan mae'r Ysbryd yn ei oleuo!

Mae'n fy synnu i bob tro pa mor fuan y mae Iesu yn sôn wrth bobl fod yn rhaid iddo ddiodeff llawer, cael ei wrthod, cael ei ladd ac yna atgyfodi. Mae fel petai o eisiau i ni wybod beth sy'n mynd i ddigwydd iddo fo yn nes ymlaen. Mae o hefyd fel petai o'n dweud – 'dwi'n gwybod beth sy'n mynd i ddigwydd i mi a fi sy'n rheoli hynny!' Onid yw hi'n gysur i ni wybod fod holl daith ein bywydau ninnau yn wybyddus i Dduw ein Tad, o'r dechrau i'r diwedd – os bydd diwedd hefyd! Bwriad Duw ydi rhoi bywyd tragwyddol i ni – dyna pam ei fod mor awyddus i ni ddeall a gwerthfawrogi beth a ddigwyddodd i Iesu. Oherwydd yr hyn a ddigwyddodd ym mywyd Iesu ac oherwydd pwy oedd Iesu, y mae bywyd tragwyddol yn cael ei gynnig i ni yn rhad ac am ddim, dim ond inni gredu'n y galon i Grist farw trosom a chyffesu â'n genau ei fod yn Arglwydd!

Sylwch beth mae Crist yn ei ddweud am ei gyffesu: "Pwy bynnag fydd â chywilydd ohonof fi ac o'm geiriau yn y genhedlaeth annuwiol a phechadurus hon, bydd ar Fab y Dyn (Iesu) hefyd gywilydd ohonynt hwy pan ddaw yng ngogoniant ei Dad gyda'r angylion sanctaidd."

Mae hi'n brofiad gwefreiddiol clywed rhywun yn cyffesu Crist yn Arglwydd yn gyhoeddus am y tro cyntaf, gan ddangos nad oes ganddynt gywilydd o Grist na'i eiriau chwaith. Beth a ddywed eich calon chi wrth eich genau? "F'enaid, bendithia yr Arglwydd a'r cyfan sydd ynof ei enw sanctaidd Ef." (Salm 103) Dewch, gadewch i ni annog ein henaid yn yr Ysbryd heddiw i gyffesu o'r newydd 'Iesu yn Arglwydd er gogoniant Duw Dad!'

Fe sylwch ein bod yn bwriadu cynnal sesiynau a seiadau yma ac acw ar hyd wythnos y Pasg. Gobeithio y medrwydd ddod i rai ohonynt ac i'r oedfaon dros benwythnos y Pasg. Byddai'n braf cael eich cwmni.

Bydd rhai ohonoch (efallai!) yn falch na ches i na Rhodri na Mair swydd y Pab! Ddim y tro 'ma beth bynnag!

*Aneurin*

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams, bydd Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Mawrth • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Mercher • **Cyfarfod ar gyfer y rhai sy'n arwain Oedfa'r Fro** yn y Granar yn Llansannan am 7.30.
- Iau • **Cyfarfod Plant** yn Llanefydd am 3.15.
- **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel Rehoboth, Prestatyn. Os na chlywch yn wahanol, ni fydd y Pwyllgor Gwaith yn cyfarfod am 4.30, ond fe drafodir gwaith yr Henaduriaeth am 6.00.
- **Cwrdd Chwarter Annibynwyr Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod am 7.00 yng Nghapel Pendref, Rhuthun. Yn dilyn y materion busnes, fe geir anerchiad gan y Parch. John Owen, Rhuthun – 'Thomas Jones - Arloeswr Bryniau Casia'.
- Gwener • **Cyfarfod Plant** yn Ysgol Pant Pastynog o 3.00-4.30.
- Gwener-Sul • **Penwythnos 'Gwerthfawr'** ar gyfer merched ifanc blynyddoedd 7-11 yng Ngholeg y Bala. Mwy o fanylion trwy gysylltu â'r Coleg (01678) 520565 / [colegybala@ebcpcw.org.uk](mailto:colegybala@ebcpcw.org.uk). Bydd Eglwysi Bro Aled yn rhoi gostyngiad o £10 i'r rhai o'r Ofalaeth fydd yn mynychu.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Elen Elias, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Neuadd Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf Bydd Arawn Glyn yn arwain oedfa yn Neuadd Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

### Llansannan

- Sul yma Bydd Cynan Llwyd yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

## Cyhoeddiadau

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Cynan Llwyd yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

### Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron **am 10.00** (SYLWCH AR Y NEWID AMSER) a'r Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir yr Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa fedydd yn Groes **am 2.00** (SYLWCH AR Y NEWID AMSER) pryd y bydd Llyr a Sioned Ames yn cyflwyno Mared Lois i'w bedyddio. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00 ac yn ystod yr oedfa, bydd yr eglwys yn Henllan yn gofyn barn yr aelodau ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00 gyda phlant y ddwy eglwys yn cyfarfod yn Henllan.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.15.
- Sul nesaf Bydd y Parch Nan Powell Davies yn arwain **oedfa deuluol** yn Llanefydd am 10.00 ac yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00.

### Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – 📧 [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – 📧 [rhodri@eglwysibroaled.com](mailto:rhodri@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291 neu  
Aneurin – 📧 [aneurin@eglwysibroaled.com](mailto:aneurin@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 870618 📞 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

### Eglwysi Bro Aled

**Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.**